# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-08-08 (p1): 24 Ebrill 2008**

## Ystyried deiseb rhif P-03-63, sy'n galw am wahardd bagiau plastig

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd i ystyried papurau gwybodaeth ar ddeiseb rhif P-03-63, sy'n galw am wahardd bagiau plastig.

### Cefndir

2. Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2008, nododd y Cadeirydd bod deiseb rhif

P-03-63 wedi'i chyfeirio i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd gan y Pwyllgor Deisebau ar 6 Rhagfyr 2007. Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau i gynhyrchu papur gwybodaeth ar y ddeiseb ar gyfer ei ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol. Mae crynodeb o bapur gwybodaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau wedi'i nodi isod ac mae'r papur cyflawn yn amgaeedig fel Atodiad A.

3. Mae'r ddeiseb yn ganlyniad prosiect BBC Cymru 'Pe Bawn i'n Rheoli Cymru' a lansiwyd ym mis Mehefin 2007, lle 'roedd aelodau'r cyhoedd yn cael eu gwahodd i gynnig awgrymiadau ynglŷn â chyfreithiau yr hoffent hwy eu gweld yn cael eu pasio yng Nghymru. Y cynnig i wahardd bagiau plastig oedd yr awgrym mwyaf poblogaidd ac fe'i cyflwynwyd fel deiseb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 20 Medi 2007. Mae'r ddeiseb ynghlwm fel Atodiad B.

4. Yn ei gyfarfod ar 4 Hydref 2007, derbyniodd y Pwyllgor Deisebau dystiolaeth gan y deisebwr a chytuno i ofyn i'r Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff i ystyried a fyddai'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn darparu'r cymhwysedd deddfwriaethol i osod gwaharddiad ar fagiau plastig. Yn ei ymateb i'r Pwyllgor Deisebau, dyfynnodd y Pwyllgor ar y GCD dystiolaeth oddi wrth y Gweinidog dros Gynaliadwyedd, yr Amgylchedd a Thai a ddarparwyd ar 25 Medi, sydd ynghlwm fel Atodiad C.

"Byddai [y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol] yn ddigon eang ei gwmpas yn nhermau deddfwriaeth i wahardd bagiau plastig, neu byddai'n galluogi i Fesur gael ei basio i osod ardoll ar fagiau plastig trwy ddull codi tâl ar ddefnyddwyr pan maent yn talu wrth y til. Byddai'n ofynnol i ni fod yn ystyrlon o gyfraith Ewropeaidd yn hyn o beth. Fe awgryma cyngor cyfreithiol cyfredol y gallai gwaharddiad llwyr ar fagiau plastig fod yn groes i gyfraith yr Undeb Ewropeaidd, oherwydd ei bod yn debygol y byddai'n anghymesur â'r nod yr anelir ato, i'r graddau y bo camau eraill, megis ardoll, yn bosibl i fynd i'r afael â'r broblem."

5. Yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr, cytunodd y Pwyllgor Deisebau i gyfeirio'r ddeiseb i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd i'w hystyried ymhellach. Mae'r llythyr cyfeirio i'w weld yn Atodiad D a thrawsgrifiad o'r cyfarfod yn Atodiad E.

6. Bydd y Pwyllgor yn derbyn tystiolaeth ar y ddeiseb gan Cadw Cymru'n Daclus a Chymdeithas Gwarchod y Môr ar 24 Ebrill yn union ar ôl ystyried y ddeiseb a'r papurau cysylltiedig.

### Crynodeb o bapur gwybodaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar ddeiseb P-03-06

7. Dengys ymchwil DEFRA bod y nifer o fagiau plastig a gaiff eu dosbarthu yn y DU yn fwy na 13 biliwn y flwyddyn, neu 216 y person y flwyddyn. Yng Nghymru, mae hyn yn cyfateb i oddeutu 648 miliwn o fagiau plastig y flwyddyn. Mae'r cyfan bron o'r rhain yn cael eu rhoi yn 'rhad ac am ddim', er, o ddefnyddio ffigurau gan Cadw Cymru'n Daclus, mae cost gudd y bagiau hyn i ddefnyddwyr yng Nghymru yn fwy na £6 miliwn y flwyddyn. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n cyflwyno codi tâl ar fagiau plastig i'w defnyddio un waith os na fyddai cynllun gwirfoddol yn dangos bod 'cynnydd digonol' yn hyn o beth.

8. Mae Cadw Cymru'n Daclus wedi gwneud dadansoddiad o astudiaeth segmentiad ysbwriel a wnaethpwyd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dengys hwn bod bagiau plastig yn ffurfio 2.7 y cant o ran pwysau o ysbwriel yng Nghymru. Bu Cadw Cymru'n Daclus yn cyfrif y gost i awdurdodau lleol o ymdrin â'r 'sbwriel hwn a gweld ei fod yn £1 filiwn y flwyddyn.

9. Cyflwynwyd system o godi tâl am fagiau plastig yn Iwerddon yn 2002. Yr oedd cyfanswm yr arian a godwyd o'r ardoll yn fwy nag 85 miliwn ewro rhwng Gorffennaf 2002 ac Awst 2007, neu 17 miliwn ewro y flwyddyn, ac mae'r arian hwn wedi'i neilltuo mewn cronfa warchod amgylcheddol. Prif effaith yr ardoll oedd gostwng yn 'sydyn a dramatig' y defnydd o fagiau cario plastig, oedd oddeutu 94 y cant yn llai, o amcangyfrif o 328 bag y person y flwyddyn i 21 bag y person y flwyddyn ar ôl cyflwyno'r ardoll. Defnyddiodd hyd at 90 y cant o brynwyr fagiau sy'n para'n hir yn 2003, o gymharu â 36 y cant ym 1999. Amcangyfrifwyd fod bagiau plastig yn ffurfio 5 y cant o'r ysbwriel yng Ngweriniaeth Iwerddon cyn cyflwyno'r ardoll, a syrthiodd y cyfran hwn i 0.22 y cant yn Awst 2004. Mae'r ymateb gan y prif ddeiliaid diddordeb - y cyhoedd a'r diwydiant mân werthu - wedi bod mor 'anhygoel o gadarnhaol' nes ei bod yn cael ei hystyried y byddai'n wleidyddol niweidiol i ddileu'r ardoll.

10. Cwympodd y Mesur arfaethedig i gyflwyno ardoll ar fagiau plastig yn yr Alban yn y cam Pwyllgor. Er bod pump allan o wyth dangosydd amgylcheddol yn dangos gwelliant o ganlyniad i'r sefyllfa o godi ardoll, penderfynodd y Pwyllgor ei bod yn "amhosibl bod yn derfynol am effeithiau amgylcheddol tebygol y Mesur ac mae'r ddadl o'r ddwy ochr ..... yn agos iawn". Yr oedd llawer o'r ansicrwydd yn deillio o dybiaeth y byddai bagiau papur yn cymryd lle bagiau cario plastig mewn 25 y cant o achosion, er bod y dystiolaeth o Iwerddon yn dangos na ddigwyddodd y cyfnewid hwnnw.

11. Mae ardollau ar fagiau plastig yn bodoli mewn gwledydd eraill yn y byd, er bod y profiadau'n anoddach i'w cymharu nag esiampl Iwerddon, yn bennaf oherwydd nad oes unrhyw ardoll arall yn cael ei godi ar ddefnyddwyr pan fyddant yn prynu. Nid oes unrhyw wlad OECD eto wedi gweithredu gwaharddiad ar fagiau plastig trwy'r wlad, er bod gwaharddiadau ar fathau penodol o fagiau'n bodoli ym Mangladesh, De Affrica a Rwanda (ymhlith eraill) ac mae gwaharddiad trwy'r ddinas yn bodoli yn San Francisco.

## Argymhelliad

12. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y ddeiseb a'r papurau ynghlwm.

Y Gwasanaeth Pwyllgorau
Ebrill 2008